Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Pen Barras**
**Stryd y Rhos**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 1DY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Gwilym Trebor Roberts**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd Sirol benodedig Gymraeg yw Ysgol Pen Barras, sy’n gwasanaethu tref Rhuthun a’r cyffiniau. Mae’r ardal yn weddol ffyniannus, gyda’r disgyblion, ar y cyfan, yn dod o gefndiroedd cymdeithasol eithaf breintiedig. Mae dros 2% o’r disgyblion yn rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl, sy’n sylweddol is na’r cyfartaledd ar gyfer y sir a Chymru gyfan.

Ar hyn o bryd, mae 216 o ddisgyblion llawn amser 4 i 11 oed ar y gofrestr ac mae 32 o disgyblion oed meithrin yn mynychu’n rhan amser naill ai yn y bore neu yn y prynhawn. Mae 18 o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys un disgybl sy’n destun datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tua 84% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Daw llai nac 1% o’r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Mae’r ysgol yn rhedeg ei meithrinfa ei hunan yn ddyddiol, sef Clwb Ffrindiau Bach. Mae hefyd yn cynnal clwb brecwast bob bore a chlwb ar ôl ysgol.

Lleolir dosbarthiadau’r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 1 ym mhrif adeilad yr ysgol, gyda’r dosbarth Meithrin a dosbarthiadau cyfnod allweddol 2 mewn cabanau. Rhennir y safle gydag ysgol gynradd arall, sef Ysgol Stryd y Rhos.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2005. Mae’r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers yr hydref, 2010. Penodwyd pennaeth parhaol i gychwyn ym Medi, 2011.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pen Barras yw £3323 sy’n cymharu gydag uchafswm o £18610 ac isafswm o £2626 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych. Hon yw’r ysgol sydd â’r gyllideb fesul disgybl 45$^{ain}$ uchaf o'r 53 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

bod y disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni safonau da;

bod yr addysgu o ansawdd da;

bod y disgyblion yn elwa o brofiadau dysgu diddorol ac amrywiol;

bod y disgyblion yn mwynhau'r ysgol, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn frwdfrydig wrth ddysgu;

bod cysylltiadau da rhwng yr ysgol a'r rhieni a'r gymuned leol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

bod yr athrawon a'r staff ategol yn dangos ymroddiad sylweddol i gynnal a gwella safonau;

bod y prosesau hunan arfarnu y mae'r holl staff a'r llywodraethwyr wedi bod â rhan ynddynt dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at welliannau, er bod lle i'w datblygu ymhellach;

bod yr ysgol yn cydweithio gydag ystod dda o bartneriaid, a

bod y tîm arolygu o'r farn y bydd yr ysgol yn gweithredu argymhellion yr arolygiad ac yn sicrhau cydweithio effeithiol rhwng y staff proffesiynol, y Corff Llywodraethol a'r awdurdod lleol (ALl).

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1: anelu at safonau rhagorol;

A2: wella cynllunio dilyniant a datblygiad sgiliau TGCh yng nghyfnod allweddol 2;

A3: wella'r trefniadau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion a rhoi rhan mwy weithredol i'r disgyblion wrth wella eu gwaith eu hunain;

A4: barhau i ddatblygu rolau arwain yr ysgol a datblygu ymhellach rôl y Corff Llywodraethol;

A5: mireinio ymhellach y systemau ar gyfer hunan arfarnu;

A6: gydweithio gyda'r ALl i wella cyfyngiadau'r safle.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae cynnydd graddol ers pedair blynedd yng nghanlyniadau asesiadau'r athrawon ar gyfer disgyblion saith oed. Yn 2010, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig (Lefel 2 neu uwch) yn uwch na chanran disgyblion y teulu o ysgolion, y sir a Chymru gyfan, ar gyfer y dangosydd pynciau craidd (DPC), mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau yn y Gymraeg wedi bod yn uwch na rhai ysgolion y teulu, y sir a Chymru ers pedair blynedd. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion â hawl i bryd am ddim, mae canran y disgyblion yn cyrraedd y lefel disgwyliedig wedi amrywio. Rhwng 2007 a 2009 roedd y canlyniadau yn gosod yr ysgol naill ai ymhlith y 50% isaf neu'r 25% isaf. Mae'r canlyniad o 100% ar gyfer y tri phwnc a'r DPC yn 2010 yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer pob dangosydd.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn gyson dda. Mae canlyniadau'r ysgol wedi bod yn uwch na rhai'r teulu o ysgolion, y sir a Chymru ar gyfer y DPC, Cymraeg a Saesneg, ym mhob un o'r pedair blynedd o ran y ganran yn cyrraedd y lefel disgwyliedig (Lefel 4 neu uwch). Roedd canlyniadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth hefyd yn uwch na rhai'r sir a Chymru dros yr un cyfnod ac yn uwch na rhai'r teulu mewn tair o'r pedair blynedd. Pan gaiff perfformiad yr ysgol ei gymharu gyda pherfformiad ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, mae perfformiad ym mhob dangosydd heblaw un wedi gosod yr ysgol naill ai ymhlith y 50% uchaf neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yr eithriad i hyn oedd i ganlyniadau gwyddoniaeth yn 2009 osod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg.

Nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y dosbarth. Dros bedair blynedd, mae genethod at ei gilydd wedi tueddu i berfformio yn well na bechgyn mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Ni ellir adnabod unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad yr unigolion sy'n derbyn prydau di- dal a disgyblion eraill.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni safonau uchel drwy'r ysgol. Mae llyfrau'r disgyblion yn dangos cyflawniad uchel mewn ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid adlewyrchwyd hyn yn llawn yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2010. Mae tua hanner y disgyblion yn cyrraedd lefel 5, sef un lefel uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ym mhob un o'r pynciau craidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi ac ar draws y flwyddyn ysgol. Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da rhwng diwedd cyfnod allweddol 1 a diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau eu gwersi ac yn cyd ddysgu gyda'u cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae safonau medrau cyfathrebu a llythrennedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2 yn dda yn y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ac yn trafod, holi ac ateb yn dda. Maent yn ddarllen i safon dda ac yn ysgrifennu darnau estynedig i safon dda mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd. Mae safonau cyfathrebu a llythrennedd Saesneg disgyblion cyfnod allweddol 2 hefyd yn dda.

Daw'r disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg wrth gychwyn eu cyfnod ysgol yn fuan i'w defnyddio yn rhwydd.

**Lles: Da**

Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achos o fwlio. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o'r hyn sy'n creu ffordd iach o fyw. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol, llawer ohonynt tu hwnt i oriau arferol yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud eu bod yn hapus yn yr ysgol ac mae'r rhieni'n cadarnhau hyn. Cadarnheir hyn gan arsylwadau'r tîm arolygu yn y dosbarthiadau. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn ac mae cyfraddau presenoldeb (ychydig dros 96%) yn gyson uwch na rhai Chymru ac ysgolion tebyg. Mae'r disgyblion yn trafod eu themâu a'u meysydd dysgu yn dda, ac mewn rhai dosbarthiadau maent yn datrys problemau ac yn cynllunio, datblygu a myfyrio'n dda ar eu dysgu eu hunain. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn ddigon aml yn gwella eu gwaith eu hunain. Mae gan y Cyngor Ysgol ddealltwriaeth gynyddol o'u rolau. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo gwelliannau yn yr ysgol, megis prynu offer chwarae ar gyfer y buarth. Mae disgyblion yn dangos parch a gofal wrth ymdrin â'ì gilydd ac yn eu perthynas agos â'u hathrawon a'r staff atodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cyflwyno ystod eang a chytbwys o brofiadau ysgogol i'r holl ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd yn llawn â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae gan yr ysgol systemau cynllunio effeithiol sydd yn sicrhau bod plant y Cyfnod Sylfaen, blwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2 yn profi gweithgareddau amrywiol ac yn datblygu yn eu dysgu. Cyfoethogir y ddarpariaeth gan gyfraniadau ymwelwyr a chlybiau ôl ysgol mewn meysydd chwaraeon, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r rhain i gyd yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) wedi ei chynllunio'n briodol. Nid yw'r cynlluniau TGCh newydd, hyd yma, yn cael eu gweithredu'n ddigon systematig ar draws cyfnod allweddol 2 i hyrwyddo safonau da gan y disgyblion.

O fewn y Cyfnod Sylfaen, blwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2 mae gan y disgyblion gyfleoedd cyson i siarad, trafod a mynegi barn, darllen testunau llenyddol a ffeithiol, ac i ysgrifennu yn estynedig. Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo medrau ymholi a medrau meddwl wedi gwreiddio'n dda mewn rhai dosbarthiadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn dda. Mae ethos Gymreig gref i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyrwyddo gweithgareddau penodol megis côr yr ysgol, gweithgaredd cwis llyfrau, amrywiol weithgareddau yn gysylltiedig â chwaraeon ac eisteddfod fel ei gilydd yn hyrwyddo'r ymdeimlad o Gymreictod yn dda iawn. Rhoddir sylw da i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes, treftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang yn dda, trwy weithgareddau oddi mewn i'r cwricwlwm a thrwy fywyd dydd i dydd yr ysgol. Mae digwyddiadau penodol megis cyswllt â Kenya a chodi arian at achosion da yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd llawer o'r addysgu yn dda, a'r gweddill yn dda iawn, drwy'r ysgol. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm.

Pan fo'r addysgu yn dda, mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn ysgogi disgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau cynnydd a dysgu da gan y disgyblion. Mae cyflymder da i'r gwersi. Defnyddir adnoddau yn drylwyr ac yn fedrus, i wella'r dysgu.

Pan fo'r addysgu yn dda iawn, llwyddir i ysbrydoli a herio'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn weithredol yn llawer o'r tasgau, yn gweithio'n annibynnol ac mae pwyslais addas yn y gwersi ar dasgau ymholiadol ac ymchwiliol. Mae holi'r athrawon hefyd yn eu herio i gadarnhau cysyniadau.

Mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda drwy'r ysgol. Cyflwynir nodau addysgol ar gyfer bron bob tasg, ac yn aml mae'r athrawon yn gosod meini prawf llwyddiant i gyd-fynd â thasgau. Ar adegau, mae disgyblion yn gosod eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Yn yr arfer orau, gwelir trafod estynedig i arfarnu llwyddiant ac, ar adegau, mae hyn yn cynnwys y defnydd o bartneriaid trafod.

Caiff cynnydd plant y Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 2 a disgyblion cyfnod allweddol 2 ei olrhain yn fanwl iawn ond mae'r systemau yn feichus i athrawon. Mae'r athrawon yn ymateb i waith yn gadarnhaol, ond maent yn symud at y dasg nesaf cyn rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu gwaith. Ni wneir defnydd digonol o ganfyddiadau asesiadau i arwain y dysgu.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Mae'r proffiliau unigol a gedwir yn y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol ac fe'u gwerthfawrogir yn fawr gan rieni. Mae'r tri chyfle ffurfiol i rieni sgwrsio â'r athrawon yn ystod y flwyddyn yn ddefnyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus drwy ystod o brofiadau addysgol. Hyrwyddir arferion bwyta'n iach a ffitrwydd yn dda.

Cyflwynir ystod o wybodaeth bwrpasol i'r rhieni. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd i'r ysgol yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd da o asiantaethau amrywiol i hybu gwybodaeth y disgyblion am faterion megis diogelwch, iechyd a hylendid.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol bellach yn dda. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu canfod yn gynnar gan yr athrawon a'u diwallu'n effeithiol. Gwneir defnydd da o gymorthyddion ac o asiantaethau allanol i gefnogi anghenion y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos gynhwysol a chefnogol yn yr ysgol sydd yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion at ddysgu ac at eu cyd-ddisgyblion.

Mae arddangosfeydd ym mhob dosbarth yn creu amgylchedd ddysgu ddeniadol.

Mae polisïau, megis rhai yn ymwneud ag ymddygiad, gwrthfwlio, gwrth-hiliaeth a sicrhau tegwch i rai anabl, yn hyrwyddo'r ethos gynhwysol yn dda. Mae'r ysgol wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau mynediad i rai anabl.

Mae'r adeiladau yn wasgaredig, gyda saith o'r un dosbarth ar ddeg mewn cabanau. Rhaid i fwy na hanner y disgyblion groesi iard i symud rhyngddynt beth bynnag fo'r tywydd. Nid oes cyflenwad dŵr na thoiled o fewn un uned. Mae'r ysgol yn rhannu ffreutur, cae chwarae, dosbarth cyfrifiaduron a neuadd gyda'r ysgol gyfagos. Tra bo yr ysgol yn ymdopi â'r sefyllfa, mae hyn yn cyfyngu rhywfaint ar y dewisiadau er mwyn cael llawn ddefnydd o adnoddau'r safle. Cedwir yr adeiladau yn lan a thaclus.

Mae diffyg lle parcio, yn arbennig ar gyfer codi a gollwng disgyblion. Mae'r ysgol yn cymryd camau i leihau risg i'r disgyblion mewn amgylchiadau anodd. Tynnwyd sylw'r llywodraethwyr at fater diogelwch penodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Bu cyfnod o ansefydlogrwydd yn yr ysgol ac effeithiodd hynny ar rai agweddau arweinyddol a rheolaethol. Ers Chwefror 2010, bu tri phennaeth-mewn-gofal yn yr ysgol a daeth dirprwy newydd ac athro arall i ymuno â'r staff yn ddiweddar. Llwyddodd y penaethiaid-mewn-gofal, mewn cydweithrediad â'r staff gweithgar, i sicrhau safonau da o ran ansawdd yr addysg a gynigir.

Mae ymdeimlad cryf iawn o waith tîm yn yr ysgol. Cydweithia'r holl staff yn agos â'i gilydd i greu ethos cadarnhaol. Mae swydd-ddisgrifiadau'r holl staff wedi eu diffinio, ond nid yw swydd-ddisgrifiadau'r athrawon sydd â chyfrifoldebau uwch bob amser yn ddigon penodol. Mae'r athrawon yn rhannu'r cyfrifoldebau am bynciau a meysydd. Rhoddir sylw da i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae'r Uwch Dim Rheoli (UDRh) yn gymharol newydd i'w swyddi ac nid yw'r aelodau wedi cael amser digonol i'w gwaith fedru effeithio'n llawn ar bob agwedd ar safonau cyflawniad a phrosesau sicrhau ansawdd.

Erbyn hyn, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth foddhaol o'u cyfrifoldebau a chydweithiant yn agos gyda'r pennaeth-mewn-gofal i osod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol. Maent yn dechrau gweithredu fel cyfaill beirniadol ac yn herio penderfyniadau. Yn ddiweddar, bu aelodau yn trafod eu gwaith gyda chydlynwyr. Buont hefyd, ar y cyd ag athrawon, yn cyfrannu at yr adroddiad hunan arfarnu a luniodd yr ysgol.

Mae barn y disgyblion a rhieni yn dechrau dylanwadu ar agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Defnyddir ystod dda o dystiolaeth fel rhan o'r broses hunanarfarnu. Ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd, mae rôl a chyfraniad yr holl staff i'r trefniadau yn gliriach. Rhoddir ystyriaeth deilwng i farn y disgyblion a'r rhieni. Mae'r barnau hyn yn gymorth i bennu cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.

Mae'r trefniadau hunan arfarnu wedi cyfrannu at y safonau da a gyrhaedda'r disgyblion, er enghraifft, trwy arsylwi'n rheolaidd ar y dysgu a'r addysgu, cymharu dulliau gweithio yn y Cyfnod Sylfaen a thrwy ddadansoddi llyfrau iaith cyfnod allweddol 2 a chyflwyno adroddiad manwl i'r staff.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth-mewn-gofal a'r UDRh wedi cynhyrchu trosolwg tair blynedd o'r meysydd y mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi'u nodi ar gyfer gwella. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn nodi blaenoriaethau treiddgar ar gyfer gwella o safbwynt codi safonau ac agweddau rheolaethol, ac mae cost, amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth wedi'u nodi'n glir.

Mae’r trefniadau datblygiad proffesiynol a sesiynau hyfforddiant ar gyfer pob aelod o’r staff yn darparu cyfleoedd da i bawb ennill medrau newydd a myfyrio ar arfer dda.

Mae ymdrech barhaus gan y pennaeth-mewn-gofal, y staff a’r corff llywodraethol i wella perfformiad blaenorol yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol buddiol sy’n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r rhieni yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn werthfawrogol ohoni. Maent yn cefnogi’r ysgol yn ymarferol trwy godi arian, cynnal gweithgareddau cymdeithasol a mynychu cyfarfodydd ar agweddau o’r cwricwlwm. Mae’n ddymuniad gan rai rhieni i gryfhau eu cyfraniadau. Mae cysylltiadau clos hefyd gyda’r gymuned leol sy’n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y profiadau dysgu. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill eu hyrwyddo’n dda trwy gysylltiadau rhyngwladol gyda gwledydd eraill megis Kenya. Mae’r ysgol yn cyd weithio’n dda gydag ysgolion cynradd eraill megis y rhai dynodedig Cymraeg o fewn y sir. Mae’r cyswllt cwricwlaidd a bugeiliol â’r ysgol uwchradd leol yn dda iawn. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos gydag Ysgol Stryd y Rhos sy’n rhannu sawl adnodd ar y safle.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer priodol o athrawon a staff ategol yn yr ysgol, er mwyn cwrdd ac anghenion y disgyblion. Mae’r athrawon yn cydweithio’n dda iawn er budd y disgyblion. Mae’r staff ategol yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn cyfrannu’n dda i waith a bywyd yr ysgol. Mae trefniadau penodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Defnyddir amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) yr athrawon yn effeithiol er mwyn gwella safonau a darpariaeth addysgol yr ysgol. Yn ddiweddar, mae amser di-gyswllt defnyddiol wedi ei neilltuo i’r UDRh, er mwyn rhoi sylw i faterion arwain a rheoli’r ysgol.

Mae adnoddau da ar gael i ddarparu ar gyfer holl ofynion y cwricwlwm ac yn gyffredinol cânt eu defnyddio’n effeithlon i hyrwyddo safonau da. Llai effeithiol yw effaith y defnydd o adnoddau TGCh yng nghyfnod allweddol 2.

Mae rheolaeth ariannol yr ysgol bellach yn dda. Mae’r pennaeth mewn gofal â’r llywodraethwyr yn goruchwylio’r gyllideb yn ofalus. Mae cyswllt clir rhwng y penderfyniadau ar wariant a blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella .

Mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian gan fod yr addysgu’r dda ac mae hyn yn arwain at safonau da.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd 44 o rieni yr holiadur. At ei gilydd, mae'r rheini yn mynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol. Mae bron bob un ohonynt yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi bod yno; mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol. Dywed y rhan fwyaf hefyd bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn hawdd sgwrsio â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon, a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

Mae ychydig iawn o rieni yn dweud nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant, nad yw eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Dywed ychydig iawn o rieni hefyd nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd 100 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiaduron. Maent i gyd yn teimlo eu bod yn cael eu haddysgu'n dda, eu bod yn gwneud cynnydd, a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os yw'r gwaith yn anodd. Maent bron i gyd o'r farn bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda. Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Ychydig iawn ohonynt sydd o'r farn nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Mae bron bob un ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu hannog i gadw'n iach a heini. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlio. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod plant yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith, a bod ymddygiad yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gwilym Trebor Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Phil Mostert | Arolygydd Tîm |
| Richard Parry Hughes | Arolygydd Lleyg |
| Elfed Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geraint Williams | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |